Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Cynghori Cenedlaethol – 23 Medi 2025

## Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol 23 Medi 2025

**Cyhoeddwyd:** 16 Gorffennaf 2026 **Diweddarwyd ddiwethaf:** 16 Gorffennaf 2026

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofnodion-cyfarfod-bwrdd-cynghori-cenedlaethol-23-medi-2025** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.

## Cynnwys


- Croeso, presennoldeb ac ymddiheuriadau
- Crynodeb AGC
- Diweddariad ar berfformiad AGC
- Lleisiau'r aelodau
- Graddau ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant – diweddariad chwe misol
- Gofal plant a chwarae – diweddariad sector ac adolygiad fframwaith
- Cynllun strategol – ffocws ar wella
- Camau gweithredu a cyfarfod nesaf

# Croeso, presennoldeb ac ymddiheuriadau

## Yn bresennol

- Ruth Hussey (Cadeirydd)
- Natalie Fletcher (Darparwr)
- Rachel Harris (Darparwr Gofal Dydd Llawn)
- Peter Max (Darparwr Gofal Preswyl)
- Melanie Minty (Fforwm Gofal Cymru)
- Claire Protheroe (PACEY)
- Alyson Thomas (Llais)
- Jenny Williams (ADSS Cymru)
- Gillian Baranski (Prif Arolygydd)
- Julie Heal (AGC)
- Annette Hennessey (AGC)
- Margaret Rooney (AGC)
- Nev Thomas (AGC)
- Elizabeth Wallwork (AGC)
- Meg Williams (AGC)

## Ymddiheuriadau

- Valerie Billingham (Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn)
- Orlaith Brennan (Darparwr Gwasanaeth Cymorth Cartref)
- Kate Cubbage (Ymddiriedolaeth Gofalwyr)
- Stuart Davies (Darparwr Gwasanaeth Cymorth Cartref)
- Margaret Rooney (AGC)

## Cymeradwyo'r cofnodion blaenorol

Penderfyniad: Cymeradwyodd aelodau'r Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin, 2025.

## Camau gweithredu o'r cofnodion blaenorol

**Rhannu sleidiau a dolenni gwe a rannwyd yn ystod y cyfarfod.**

- Fe'u dosbarthwyd ynghyd â phortreadau'r Tîm Arwain Gweithredol cyn y cyfarfod.

**Parhau i rannu astudiaethau achos ar ymarfer cadarnhaol.**

- Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, ac rydym yn cyflwyno enghreifftiau ymarfer

cadarnhaol ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant yn nes ymlaen ym mis Medi.

**Ystyried sut i wella adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid yn ystod arolygiadau.**

- Bydd y gwaith hwn yn rhan annatod o'r strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu rydym yn ei datblygu.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid i symleiddio'r broses ar gyfer datganiadau blynyddol.**

- Mae'r gwaith hwn yn parhau. Byddwn yn sefydlu grwpiau profi defnyddwyr fel rhan o'r gwaith symleiddio casglu data rydym yn ei wneud gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

**Olrhain goblygiadau gofynion cyhoeddi ar wefan i ddarparwyr bach.**

- Cafodd y mater hwn hefyd ei godi gan ddarparwyr mewn digwyddiad diweddar i ddarparwyr. Anogwn yr holl ddarparwyr a chanddynt bryderon i adrodd hyn yn ôl trwy ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

# 1. Crynodeb AGC

Rhoddodd Gillian Baranski y diweddariadau canlynol gan AGC:

## 1.1 Ymchwiliad COVID-19

Rhoddodd AGC dystiolaeth i ymchwiliad COVID-19 y DU ym mis Gorffennaf, yn pwysleisio pwysigrwydd y penderfyniad i roi saib ar arolygiadau rheolaidd am gyfnodau yn ystod y pandemig. Rydym yn aros am adroddiadau'r ymchwiliad.

## 1.2 Adolygiadau diogelu

Disgwylir i adolygiad ymarfer plant annibynnol o Wynedd gael ei gyhoeddi'n fuan.

## 1.3 Fframwaith diwylliant cadarnhaol

Mae AGC yn parhau i ymgorffori'r fframwaith diwylliant cadarnhaol yn fewnol ac yn allanol.

### 1.4 Adroddiad blynyddol

Mae disgwyl i adroddiad blynyddol 2024-25 gael ei gyhoeddi ar 14 Hydref.

### 1.5 Recriwtio Arolygwyr

Mae AGC wedi recriwtio 20 o arolygwyr newydd, gyda mwy i ddilyn. Mae'r broses o recriwtio arolygwyr sy'n siarad Cymraeg yn y gogledd yn parhau i fod yn her. Mae ymgyrch wedi'i thargedu wedi'i chynllunio.

### 1.6 Casglu data ar y cyd

Mae'r cynnydd ar gyfuno'r gwaith o gasglu data datganiad blynyddol gydag ymarfer data gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau, gyda chynlluniau ar waith ar gyfer ymarfer casglu data ar y cyd yn 2026.

### 1.7 Cydnabod gwobrau

Mae AGC wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer dwy wobr gan Lywodraeth Cymru  ym maes cyfathrebu ac arweinyddiaeth. Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd.

## 2. Diweddariad ar berfformiad AGC

Cyflwynodd Gillian Baranski ddiweddariad manwl ar berfformiad:

### 2.1. Symiau arolygu a staffio

Er gwaethaf gostyngiad mewn staffio (o 265 i 236), mae'r symiau arolygu wedi cynyddu rhyw ychydig. Bu ymrwymiad y staff yn allweddol i gynnal perfformiad:

- Cyhoeddwyd 94.5% o adroddiadau arolygu ar amser (C1 2025-26)
- Cyhoeddwyd 94% ar amser

### 2.2 Arolygiadau hwyr

Mae arolygiadau hwyr yn parhau i fod yn destun pryder, yn enwedig mewn gwasanaethau maethu a mabwysiadu. Ar 14 Awst 2025:

- Roedd 364 o arolygiadau yn hwyr (i fyny o 281)
- Roedd 45% o arolygiadau gofal plant a chwarae dros 12 mis yn hwyr
- Mae cynllun wedi'i dargedu ar waith i ymdrin â'r ôl-groniad, a gefnogir gan ddyfodiad ein harolygwyr newydd.

### 2.3. Cofrestru a gorfodi

Mae nifer y gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad yn is nag oeddent yn 2023/24 ar y cyfan, a hynny'n rhannol am fod mwy o awdurdodau lleol yn cofrestru eu cartrefi plant eu hunain.

Gwelodd Chwarter 1 86% o bryderon Gweithredu heb Gofrestriad yn cael eu hystyried ar amser, gyda'r crynodeb canlynol:

- 93% ar gyfer y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
- 58% ar gyfer CCP, sy'n nodi angen i wella amserlenni Gofal Plant a Chwarae.

### 2.4. Arolygiadau awdurdodau lleol

Cyhoeddwyd pob adroddiad ar amser. Mae arolygiadau gan gymheiriaid yn parhau i ychwanegu gwerth.

## 3. Lleisiau'r aelodau

### 3.1 Pryderon y Sector

Cododd Rachel Harris bryderon am y cynllun cymeradwyo gwirfoddol a'i oblygiadau ar gyfer diogelu. Cadarnhaodd Kevin Barker a Ceri Herbert fod sgyrsiau'n parhau gyda chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru ar y pwnc hwn ac anogwyd y darparwyr i ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.

### 3.2. Ymgyngoriadau

Pwysleisiodd Claire Protheroe yr anhawster o ymgysylltu â darparwyr gyda sawl ymgynghoriad yn rhedeg ar yr un pryd. Cydnabyddodd AGC yr her a gwnaeth ymroi i godi hyn gyda Llywodraeth Cymru. Anogwyd y darparwyr i ymateb i ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru

### 3.3 Canolfannau preswyl i deuluoedd

Mynegodd Peter Max bryderon am ailgofrestru gwasanaethau fel canolfannau preswyl i deuluoedd a'r angen am eglurder ynghylch rheoleiddio. Gofynnodd hefyd am ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn ddiogel ac yn unol â diogelu data, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol / sensitif yn cael ei diogelu mewn lleoliadau gofal.

### 3.4. Cynrychiolaeth

Nododd aelodau absenoldeb cynrychiolaeth gan ofal preswyl i oedolion. Bydd AGC yn adolygu aelodaeth y bwrdd.

## 4. Graddau ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant – diweddariad chwe misol

Cyflwynodd Nev Thomas ddiweddariad ar weithrediad graddau:

### 4.1. Trosolwg o arolygiadau

Rhwng 1 Ebrill ac 1 Medi 2025, cyhoeddodd AGC adroddiadau arolygu ar gyfer 337 o wasanaethau, sy'n cynnwys:

- 183 o gartrefi gofal i oedolion hŷn
- 60 o gartrefi plant
- 94 o wasanaethau cymorth cartref

### 4.2. Canlyniadau graddau

Rhoddwyd gradd Da i'r mwyafrif o'r gwasanaethau, gyda graddau Rhagorol yn dod yn ail agos ym mhob thema. Yn benodol:

- Yn y thema llesiant, cafodd bron i 200 o wasanaethau eu graddio'n Dda, gyda nifer sylweddol yn cael eu graddio'n Rhagorol.

### 4.3. Pethau cadarnhaol

Roedd yr adborth gan y darparwyr yn gadarnhaol ar y cyfan:

- Roedd y darparwyr yn gwerthfawrogi eglurder a strwythur y fframwaith newydd, yn enwedig yn ystod trafodaethau ar ôl yr arolygiad.
- Adroddodd y staff eu bod yn teimlo'u bod yn ymgysylltu'n fwy yn y broses arolygu.
- Helpodd y fframwaith y darparwyr i ddeall y meysydd y mae angen eu gwella a chytuno ar y camau nesaf gydag arolygwyr.

### 4.4 Hyfforddiant a chysondeb

- Mae'r sesiynau galw heibio misol i arolygwyr wedi'u mynychu'n dda, maent yn cefnogi cysondeb a dysgu a rennir.
- Mae hyfforddiant ar raddau bellach yn cael ei ymgorffori yn y rhaglen sefydlu ar gyfer

arolygwyr newydd.
- Mae samplu adroddiadau ar hap yn parhau i fonitro cysondeb a nodi tueddiadau.

### 4.5. Y camau nesaf

- Mae gwerthusiad manylach o'r rhaglen raddau wedi'i gynllunio ar ôl i'r gwasanaethau gael eu harolygu o dan y fframwaith newydd.
- Bydd AGC yn archwilio sut i addasu cylchoedd arolygu ar gyfer gwasanaethau y dyfernir graddau rhagorol iddynt.

### 4.6. Adborth y sector

Cafwyd adborth cadarnhaol gan ddarparwyr, gan gynnwys cartref i blant a wnaeth herio gradd trwy ddeialog broffesiynol a chyflwyno tystiolaeth. Gwnaeth arolygydd ailystyried a diwygio'r radd, dangos didwylledd a thryloywder yn y broses.

## 5. Gofal plant a chwarae – diweddariad sector ac adolygiad fframwaith

Cyflwynodd Ceri Herbert ddiweddariad ar y sector gofal plant a chwarae a gwaith adolygu'r fframwaith arolygu:

### 5.1. Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS)

- Cyflawnodd ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth 2025 gyfradd ymateb o 97%, gan ddarparu sail dystiolaeth gref ar gyfer mewnwelediadau'r sector.
- Cydnabyddodd AGC yr ymdrech gydweithredol ar draws timau mewnol, sefydliadau ymbarél (e.e. Coram PACEY), ac awdurdodau lleol wrth gefnogi darparu i gwblhau datganiadau.

### 5.2. Tueddiadau allweddol y sector

- Gwelodd Abertawe, Caerdydd a Sir Ddinbych gynnydd sylweddol yn nifer y plant a oedd yn mynychu lleoliadau, gyda thros 1,200 o blant ychwanegol yn Abertawe yn unig.
- Nodwyd symudiad o bresenoldeb rhan amser i amser llawn, y mae'n debygol o fod yn gysylltiedig ag ehangu Dechrau'n Deg a'r dull gweithredu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.
- Mae niferoedd y staff wedi cynyddu, gyda llai yn gadael y gwasanaeth. Ond mae llawer ar gontractau dim oriau, sy'n codi pryderon am sefydlogrwydd y gweithlu.

### 5.3. Darpariaeth Gymraeg

Gwelwyd cwymp yn nifer y lleoliadau oedd yn adrodd ar elfennau dwyieithog, a briodolwyd i eglurder gwell yn nhestun cymorth y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Arhosodd y nifer o leoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn sefydlog i bob pwrpas.

### 5.4. Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Gwnaeth y nifer o blant y nodwyd bod ganddynt ADY ostwng 241, sy'n debygol o fod oherwydd dealltwriaeth well o god a meini prawf ADY.

Gwelwyd cynnydd cadarnhaol yn y canlynol:

- Lleoliadau oedd yn penodi arweinwyr ADY (+54)
- Ymwybyddiaeth o'r Cod ADY
- Atgyfeiriadau a chyswllt ag awdurdodau lleol

### 5.5. Adolygiad fframwaith

Mae AGC ac Estyn yn adolygu'r fframwaith arolygu ar y cyd, gyda'r nod o leihau'r pedair thema bresennol i dair drwy integreiddio Amgylchedd ar draws pob maes.

Bydd y fframwaith diwygiedig yn adlewyrchu datblygiadau polisi presennol yn well, gan gynnwys:

- Cwricwlwm i Gymru
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Deddfwriaeth ADY
- Egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

### 5.6. Y camau nesaf

- Disgwylir fframwaith newydd erbyn mis Rhagfyr 2025, gyda threialon yn y Gwanwyn 2026 a chyflwyniad llaw o fis Medi 2026 ymlaen.
- Nod AGC yw symleiddio adroddiadau arolygu i fod yn gliriach, yn fwy cryno ac i ganolbwyntio ar achos ac effaith.

## 6. Cynllun strategol – ffocws ar wella

Cyflwynodd Kevin Barker drosolwg o ffocws strategol AGC ar welliant:

## 6.1. Cyd-destun strategol

Mae gwelliant bellach yn un o dri philer strategol AGC, ochr yn ochr â Sicrwydd a Dylanwad. Mae ymrwymiad AGC i welliant yn cynnwys:

- Dathlu llwyddiannau
- Annog gwelliant parhaus
- Hyrwyddo diwylliannau sefydliadol cadarnhaol a chynhwysol
- Gwella dysgu mewnol ac allanol
- Defnyddio adnoddau digidol i wella effeithlonrwydd ac effaith

## 6.2. Arolygu a gwella

Myfyriodd Kevin ar rôl esblygol arolygu wrth gefnogi gwelliant:

- Nod AGC yw symud o fodel cwbl seiliedig ar sicrwydd i un sy'n meithrin ymddiriedaeth a gwelliant ar y cyd.
- Cwestiwn allweddol: “Ydyn ni'n gadael gwasanaethau mewn lle gwell nag y gwnaethom eu canfod?”
- Caiff graddau eu hystyried fel adnodd gwerthfawr, ond dim ond pan y cânt eu cyfuno â gweithgareddau gwella ehangach.

## 6.3. Model cydberthnasau

Cyfeiriodd AGC at fodel o Gronfa'r Brenin sy'n gwahaniaethu rhwng:

- Cydberthnasau patholegol (wedi'u cymell gan gydymffurfiaeth)
- Cydberthnasau cynhyrchiol (sy'n canolbwyntio ar welliant)

Gwnaeth pleidlais fyw o fynychwyr roi AGC ar 3.6 allan o 5 ar gyfartaledd, gan nodi cynnydd tuag at ddull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar welliant, ond sydd â lle i dyfu.

## 6.4. Mentrau gwella presennol

Mae AGC wedi rhoi sawl menter ar waith i gefnogi gwelliant ledled y sector:

- Cyfarfodydd ansawdd rhwng arolygiadau, wedi'u hysbysu gan raddau (sector gofal plant a chwarae)
- Ymarfer gwerth ei rannu: cyhoeddwyd enghreifftiau o arferion da ar-lein
- Cynadleddau ansawdd: digwyddiadau agored i ddarparwyr rannu dysgu (sector gofal plant a chwarae)
- Cynlluniau i ehangu'r mentrau hyn i wasanaethau oedolion a phlant

### 6.5. Adborth gan aelodau

Croesawodd aelodau gyfeiriad y teithio a gwnaethant rannu'r myfyrdodau canlynol:

- Ystyriwyd bod ymreolaeth a rheoleiddio cymesur a enillwyd yn egwyddorion cadarnhaol
- Nododd cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol y gall arolygiadau deimlo fel petaen nhw'n canolbwyntio'n ormodol ar gydymffurfiaeth o hyd
- Roedd y darparwyr yn gwerthfawrogi cysondeb ymhlith arolygwyr a'r cyfle i feithrin ymddiriedaeth
- Codwyd pryderon ynghylch anghysonderau mewn dulliau arolygu, yn enwedig yn y gogledd.

Awgrymodd yr aelodau y gallai AGC wneud mwy i :

- Hyrwyddo'r broses o fabwysiadu arfer da
- Cysoni trafodaethau gwella gyda gwaith monitro contractau awdurdodau lleol

## Camau gweithredu a cyfarfod nesaf

- Bydd AGC yn parhau gyda recriwtio wedi'i dargedu am arolygwyr sy'n siarad Cymraeg
- Chwiliodd y gwirfoddolwyr am y grŵp strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu (gwirfoddolodd Alison Thomas a Melanie Minty)
- Bydd AGC yn adolygu aelodaeth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ac yn sicrhau cynrychiolaeth o'r sector llawn
- Bydd AGC yn ystyried canllawiau ar y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial mewn gwasanaethau rheoleiddiedig.
- Bydd AGC yn rhannu pryderon am amseru ymgyngoriadau gyda Llywodraeth Cymru
- Anogwyd darparwyr i ymateb i ymgyngoriadau a rhannu adborth gydag AGC
- AGC i gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofnodion-cyfarfod-bwrdd-cynghori-cenedlaethol-23-medi-2025** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.